
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 Rhif 1207 (Cy. 249)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd
Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 4) (Cymru) 2022

<i>Gwnaed</i>	-	-	-	-	<i>20 Tachwedd 2022</i>
<i>Gosodwyd gerbron Senedd</i>					
<i>Cymru</i>	-	-	-	-	<i>22 Tachwedd 2022</i>
<i>Yn dod i rym</i>	-	-			<i>1 Ionawr 2023</i>

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 124 a 203(9) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006⁽¹⁾.

⁽¹⁾ 2006 p. 42. *Gweler* adran 206(1) am y diffiniadau o “prescribed” a “regulations”.